Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Tywysog ddaeth o'r Afon

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus

addaswyd gan: M. Maillot; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Joseff, y prif-weinidog, wedi marw!

Roedd pawb yn yr Aifft yn rhannu tristwch ei deulu.

Roedd Duw wedi defnyddio Joseff yr Hebrewr i

achub
y wlad
rhag
newyn.

Bu'n arweinydd doeth a phoblogaidd.

Nawr, roedd wedi mynd.

Aeth tri chan mlynedd heibio.

Tyfodd pobl Joseff, yr Hebreaid, i fod yn genedl fawr yn yr Aifft.

Roedd y Pharo newydd yn ofni y byddai'r Hebreaid yn codi yn ei

erbyn, ...

... felly gorfodododd nhw i weithio fel caethweision.

Cafodd yr Hebreaid eu trin yn greulon gan Pharo. Cawson nhw eu gorfodi i adeiladu dinasoedd mawr.

Ond dim ots pa mor galed oedd yn rhaid iddyn nhw weithio, roedd yr Hebreaid yn dal i dyfu mewn nifer.

Un diwrnod, rhoddodd Pharo orchymyn ofnadwy. "Rhaid taflu pob bachgen bach newydd ei eni i'r afon Nîl."

Roedd Pharo drwg yn benderfynol o gael llai o Hebreaid yn y wlad- hyd yn oed oes oedd hynny'n golygu lladd babis!

“Beth allwn ni ei wneud?” meddyliodd un teulu. Dyma nhw’n penderfynu rhoi eu plentyn yn yr afon Nîl – mewn basged glyd oedd yn dal dŵr.

Fe wnaeth y cwch-basged bach arnofio yng nghanol y brwyn, ...

... gyda'i lwyth gwerthfawr. Beth fyddai'n digwydd i'r babi bach?

Roedd chwaer y babi'n sefyll heb fod yn rhy bell, ...

... yn gwylio'r fasged yn symud i fyny ac i lawr yn y brwyn.

Yn sydyn daeth merch
Pharo a'i morwynion i
ymolchi yn yr afon.

Doedd dim ffordd o guddio'r fasged. Oedden nhw'n mynd i gerdded heibio
heb sylwi?

"O! Dacw fasged yn y brwyn. Tybed beth sydd y tu mewn iddi." Gorchmynnodd merch Pharo i'w morwyn nôl y fasged a'i hagor.

Dechreuodd y babi grio. “Plentyn un o’r Hebreaid sydd yma,” meddai’r dywysoges.

"Y peth bach. Rwyt ti'n fachgen mor dlws."

Mae'n debyg fod merch Pharo wedi siarad gyda'r plentyn a dweud pethau fel ...

... "Gw-gw-gw" - mewn
Eiffteg wrth gwrs.

Mae'n rhaid fod Duw wedi rhoi doethineb arbennig i chwaer y babi. Rhedodd at ferch Pharo a gofyn, ...



... “Ydych chi am i mi fynd i nôl un o'r gwragedd Hebreig i fagu'r plentyn i chi?”

"Ydw", oedd yr ateb.
At bwy aeth y ferch,
meddyliwch chi?


"Mam! Tyrd yn gyflym! Brysia!"
Efallai nad oedd gan y ferch amser i egluro.

Rhedodd y ddwy yn ôl ar hyd y llwybr.

Lawr wrth yr afon, gofynnodd merch Pharo i'r wraig, ...

... "Dw i am i ti gymryd y plentyn yma, a'i fagu ar y fron i mi. Fe wna i dalu cyflog i ti am wneud hynny. Ei enw fydd Moses."

Mae'n bosib mai ystyr Moses ydy mab o'r dŵr yn iaith yr Aifft.

Felly cafodd Moses fyw gyda'i rieni. Fe wnaethon nhw ei ddysgu i garu Duw a'r bobl Hebreig.

Byddai'n symud i fyw at ferch Pharo yn y palas yn fuan.

Roedd gan Dduw, oedd wedi achub ei fywyd, gynlluniau mawr ar gyfer y babi Moses.

Y Tywysog ddaeth o'r Afon

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Exodus 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16